**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG
Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet
Llywodraeth y DU

13 Chwefror 2024

Annwyl Farwnes Neville-Rolfe,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Chwefror i drafod Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor. Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich awgrym i barhau â'r ddeialog â'r Pwyllgor wrth i Fodel Gweithredu Targed y Ffin gael ei gyflwyno drwy gydol 2024 a thu hwnt. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y sesiwn yn ddefnyddiol iawn. Yn dilyn y sesiwn, roedd gan yr Aelodau ambell gwestiwn, a chytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gael eglurhad. Byddwn yn falch pe gallech ymateb i'r canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor eich datganiadau eich bod yn awyddus i leihau anghymesuredd masnach ar hyn o bryd a bod Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Iwerddon ac awdurdodau Iwerddon i sicrhau cyn lleied o ffrithiant â phosibl ar gyfer porthladdoedd Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, a yw Llywodraeth y DU wedi trafod gyda'r UE y posibilrwydd o leihau'r rhwystrau ymhellach ar symudiadau anuniongyrchol nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon rhwng Cymru, Iwerddon a Gogledd Iwerddon?

- Gwnaethoch chi sôn yn ystod y sesiwn bod Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â sefydliadau Prydain. A fyddech yn gallu rhoi gwybod a oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru?

- Gwnaethoch chi ddweud y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan ynglŷn â'r tâl cyffredin i ddefnyddwyr. A allech chi roi gwybod i'r Pwyllgor pryd y bydd hyn yn cael ei wneud?

- A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar Fframwaith Windsor a Chymru?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn dro ar ôl tro i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y DU-UE pan drafodir materion sydd â goblygiadau i borthladdoedd Cymru. A yw hwn yn fater y gellid ei adolygu yng ngoleuni'r datblygiadau a drafodwyd yn ystod y sesiwn?

- A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig ar y sgyrsiau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys pum aelod-wladwriaeth yr UE, sef Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen ac Iwerddon. Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn sgyrsiau ag Iwerddon, o ystyried ein daearyddiaeth.

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gweithgareddau a amlinellwyd gennych i gasglu data newydd, ond rydym yn pryderu efallai na fydd hyn yn casglu ystadegau ynghylch faint o fusnesau a allai fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu trawsffiniol o ganlyniad i'r drefn ar ôl Brexit. A fyddech yn gallu darparu unrhyw ystadegau ar hynny?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg